Crynodeb 60 eiliad

# Cyfraith cystadleuaeth: cyngor i ysgrifenyddion cwmnïau

## Pam fod angen i mi wybod am gyfraith cystadleuaeth?

Gall fod yna oblygiadau niweidiol i fusnes sydd wedi torri cyfraith cystadleuaeth. Trwy fod yn ymwybodol o'r risgiau, gall ysgrifenyddion cwmnïau helpu diogelu busnes a'i fwrdd rhag cosbau posibl.

Mae ysgrifenyddion cwmnïau yn chwarae rhan allweddol o ran cynghori byrddau ar eu cyfrifoldebau corfforaethol a risgiau rheoleiddiol. Gall cytundebau ac arferion sy'n ceisio cyfyngu ar allu busnesau i gystadlu fod yn anghyfreithlon, p'un a ydynt yn fertigol (megis cyflenwr → masnachwr) neu lorweddol (rhwng cystadleuwyr). Felly mae'n bwysig deall ble a sut gallai'ch busnes fod mewn perygl o dorri cyfraith cystadleuaeth er mwyn parhau i gydymffurfio.

## Beth ddylwn i gadw llygad amdano?

Mae'r CMA wedi cyhoeddi canllaw cryno ar ei wefan ar risg cyfraith cystadleuaeth sy'n disgrifio arferion gwrth gystadleuaeth i fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys cwestiynau i nodi ble gallai'ch busnes fod dan risg, yn cynnwys y canlynol:

- A yw cyflogeion yn aml yn sgwrsio gyda busnesau eraill yn yr un sector?
- A ydych chi byth yn cydweithio neu weithio mewn partneriaeth gyda'ch cystadleuwyr?
- A yw'ch cwsmeriaid hefyd yn gystadleuwyr i chi?
- A ydych chi'n fusnes gyda chyfran fawr o'r farchnad yr ydych yn gweithredu ynddi?

## Beth all ysgrifenyddion cwmnïau ei wneud?

Mae nodi ble a sut allai'ch busnes dorri cyfraith cystadleuaeth yn gam cyntaf tuag at strategaeth gydymffurfio effeithiol:

- Sicrhau fod diwylliant o gydymffurfiad wedi ei fewnosod yng ngwerthoedd ac ymddygiadau'r busnes, o'r brig i lawr
- Codi'r mater o gyfraith cystadleuaeth ar lefel y bwrdd i sicrhau fod pawb yn deall y peryglon o beidio cydymffurfio
- Gwybod ble i droi os ydych chi'n meddwl fod eich busnes wedi torri'r gyfraith: mae'r CMA yn gweithredu rhaglen drugaredd i'r rhai sy'n cyfaddef y buont yn rhan o gartél. Os bodlonir amodau penodol, gallai busnes dderbyn imiwnedd rhag dirwyon a chosbau.

Mae'n allweddol i fusnesau ddeall y risgiau o ran cyfraith cystadleuaeth. Gall ysgrifenyddion cwmnïau helpu diogelu busnes a'i fwrdd rhag torri'r rheolau.



## Beth yw goblygiadau torri'r gyfraith?

Gall busnesau sy'n torri cyfraith cystadleuaeth wynebu dirwy o hyd at 10 y cant o'u trosiant byd eang a chael eu datgymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni am hyd at 15 mlynedd.

Mae bod yn rhan o gartél hefyd yn dramgwydd troseddol – gall unigolion fynd i'r carchar am hyd at 5 mlynedd.

Am ragor o wybodaeth ar gyfraith cystadleuaeth a sut i gydymffurfio: **www.gov.uk/cma**

I drafod a gofyn am drugaredd: Ff: 020 3738 6833

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**